

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Mercher, 5 Hydref 2022 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Brian Blakeley, Ellie Chard, Karen Edwards, Gwyneth Ellis, James Elson, Jon Harland, Huw Hilditch-Roberts, Alan James, Delyth Jones, Julie Matthews, Terry Mendies, Raj Metri, Win Mullen-James, Merfyn Parry, Gareth Sandilands, Peter Scott (Is-Gadeirydd), Andrea Tomlin, Elfed Williams a/ac Mark Young (Cadeirydd)

Sylwedydd – Cyngorydd Hugh Evans

HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW); Rheolwr Datblygu (PM); Pen Swyddog Cynllunio (PG); Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygu (MP); Gwesteiwr Chwyddo (KJ); a Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

Siaradwyr Cyhoeddus -

Mr Rodney Witter (Eitem 6 ar yr Agenda)

Mr Arwen Davies (Eitem 7 ar yr Agenda)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr) Pete Prendergast

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorydd Alan James gysylltiad personol yn eitem rhif 9 (Roger W Jones Ltd) gan fod ganddo gyfrif adeiladwyr gweithredol.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 7 Medi 2022.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi fel cofnod cywir.

Cyflwynwyd ceisiadau a oedd yn gofyn am benderfyniad y Pwyllgor ynghyd â'r dogfennau cysylltiedig. Cyfeiriwyd hefyd at y wybodaeth atodol a gyflwynwyd yn hwyr (taflenni glas) a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r rhaglen ac a oedd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol a oedd yn ymwneud â'r ceisiadau hynny. Er mwyn caniatáu ceisiadau gan aelodau'r

cyhoedd i gyflwyno sylwadau, cytunwyd y dylid amrywio trefn y ceisiadau ar y rhaglen.

5 CAIS RHIF 01/2021/0850/ PF - PARC CARAFANAU TEITHIOL LLEWENI, PARC LLEWENI, Ffordd yr Wyddgrug, Dinbych LL16 4BW

Cyflwynwyd cais i newid y cynllun a gymeradwywyd i ffurfio 14 llain ychwanegol ar gyfer carafanau teithiol, traciau mynediad a llwybrau mewnol, cysylltu â'r tanc septig presennol, plannu, tirlunio a gwaith cysylltiedig ym Mharc Carafanau Teithiol Lleweni, Parc Lleweni, Ffordd yr Wyddgrug, Dinbych.

Siaradwr Cyhoeddus –

Rhododd Rodney Witter (o blaid) – hanes byr o'r safle a'r cefndir ar gyfer y cais. Cymerodd y perchnogion presennol warchodaeth dros y tir yn 1989. Roedd y Pwyllgor Cynllunio wedi bod o gymorth yn y gorffennol a chafwyd caniatâd cynllunio yn yr 1990au i adfer yr adeiladau i'r 17 tŷ gwych yn Lleweni ar hyn o bryd. Dechreuodd y gwaith o adfer yr hen llwyni ac yn 1990 bu i'r Pwyllgor Cynllunio gymeradwyo 10 carafán i'r ardal gychwynnol. Yn nes ymlaen, wrth adfer rhan bellach, unwaith eto bu i'r Pwyllgor Cynllunio gytuno yn unfrydol i gynyddu i 20 carafán. Yn dilyn pryderon o ran nifer y symudiadau gan y carafanau ar hyd lôn gul y maes awyr, a oedd ei angen bob 28 diwrnod, newidiodd y Pwyllgor Cynllunio'r amod a chaniatáu'r carafanau i aros ond i'w defnyddio am 28 diwrnod ar y tro yn unig, sydd bellach yn cael ei gofnodi mewn dyddiadur electronig. Roedd y gwaith o adfer y llwyni bellach wedi'i gwblhau a fyddai'n galluogi 14 llain ychwanegol ar gyfer carafanau yn yr ardal breifat ac sydd o'r golwg. Byddai hwn yn encil tawel i'r gwesteion sy'n gwerthfawrogi atyniadau Dyffryn Clwyd. Mae'r gwesteion yn dod â phŵer gwario i'r ardal. Gofynnodd Mr Witter i'r aelodau gefnogi argymhelliad y swyddogion.

Trafodaeth Gyffredinol –

Darllenodd y Cynghorydd Delyth Jones ddatganiad ar ran y Cynghorydd Rhys Thomas (Aelod Ward). Roedd gan y Cynghorydd Thomas amheuan difrifol am gymeradwyo'r cais cynllunio, fodd bynnag, os, drwy ganiatáu'r cais, y byddai'r safle yn newid o'r hyn a oedd yn bresennol i fod yn safle sy'n cael ei reoli'n dda, yna byddai'n cefnogi'r cais. Byddai'n disgwyl i'r amodau cynllunio ar y safle gael eu monitro'n rheolaidd ac hefyd gorfodi amodau os bo angen. Byddai hyn yn lliniaru pryderon preswylwyr cyfagos.

Dywedodd y Cynghorydd Win Mullen-James os byddai'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cais, a ellir gosod amod y byddai'n sensitif i olau i Safle Awyr Dywyll yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a bywyd gwyllt y nos.

Cadarnhaodd y swyddogion, o ran rheoli golau ar gyfer yr effaith ar yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyfagos, bydd angen amod rhif 5 sy'n gofyn am asesiad goleuadau allanol a goleuadau mewnol, er budd amddiffyn cadwraeth ystumod. Cadarnhawyd y byddai angen amod ychwanegol a oedd yn gofyn i reoli goleuadau allanol ar y carafanau eu hunain.

Cynnig – Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Delyth Jones.

PLEIDLAIS -

O blaid – (9 pleidlais yn y Siambr a 10 pleidlais dros Zoom) – 19

Ymatal – 0

Gwrthod - 0

PENDERFYNWYD y dylid **CYMERADWYO'r** cais yn unol ag argymhellion y swyddog.

6 CAIS RHIF 10/2021/1173/ PF - TIR YN NANT Y GAU, BRYNEGLWYS, CORWEN, LL21 9LF

Cyflwynwyd cais i godi annedd gweithiwr amaethyddol, gosod peiriant trin carthion a gwaith cysylltiedig ar dir yn Nant y Gau, Bryneglwys, Corwen.

Siaradwr Cyhoeddus –

Arwyn Davies (O blaid) – Roedd Mr Davies yn awyddus i gadw'r fferm deuluol i fynd ac yn gobeithio bod yn ffermwr o'r bedwaredd genhedlaeth a oedd yn gweithio'n agos gyda'i rieni ac wedi dysgu'r ffyrdd gorau o ffermio. Rhoddodd amlinelliad o'r ffermio yr oedd yn ei wneud ac yn y diwedd roedd yn gobeithio meddiannu'r fferm gyda'i deulu. Dywedodd Mr Davies fod angen i ffermio newid oherwydd newid hinsawdd, costau a rheolau NBZ newydd. Gyda'r wybodaeth a oedd wedi'i throsglwyddo dros genedlaethau a'r gefnogaeth barhaus gan ei rieni a'i bartner, Grace, roedd yn hyderus y gallai'r fferm ffynnu. Fodd bynnag, roedd angen iddo fod ar y safle. Roedd wedi edrych ar eiddo yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos ond nid yn unig roedd y rhain yn anfforddiadwy, ond nid yn ymarferol oherwydd ei gŵn defaid, ei wyna a'i loia. Oherwydd lles yr anifeiliaid roedd angen i Mr Davies fod ar y safle yn enwedig gan y byddai'n rhedeg y busnes yn fuan iawn. Y gobaith oedd y byddai'r plant yn tyfu i fyny ar y fferm ac yn mynd i'r ysgol gynradd leol gan fod hyn yn hanfodol i ddyfodol y fferm a gyda chymorth y Pwyllgor Cynllunio, gallai anelu at fod yn ffermwr pedwaredd genhedlaeth Nant Y Gau, gan gymryd rôl arweiniol yn y busnes a pharatoi'r fferm ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Trafodaeth Gyffredinol –

Diolchodd y Cynghorydd Hugh Evans (Aelod Lleol) i Mr Arwyn Davies am gyflwyno ei ddatganiad. Roedd yn amlwg bod llawer o waith wedi digwydd rhwng yr ymgeisydd a swyddogion ac roedd yn galonogol gweld bod mwyafriif o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol wedi eu cwrdd. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau gan yr AHNE, Cyngor Cymuned, trigolion na Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Nid oedd unrhyw negyddiaeth weledol o gwmpas y cynnig ac mae'r cais yn cefnogi'r targed allyriadau carbon. Y rheswm y daethpwyd â'r cais gerbron y Pwyllgor Cynllunio oedd pryderon rhwng barn broffesiynol Prifysgol Reading a Kite Consultants ac roedd y Cynghorydd Evans hefyd yn pryderu bod swyddogion wedi cymryd sylw o elfen Reading o'r cyngor yn hytrach na chyngor Kite Consultants.

Eglurodd y Cynghorydd Evans ei fod yn ei chael yn anodd deall pam nad oedd Prifysgol Reading yn gwerthfawrogi'r cyllid oedd ar gael yn y busnes ffermio. Nid oedd cyflog y priod wedi'i ystyried, na'r gwaith allanol y mae'r ymgeisydd yn ei wneud. Teimlai'r Cynghorydd Evans nad oedd y swyddogion wedi gweld y darlun

ariannol cyflawn wrth wneud eu hargymhellion a gofynnodd i'r Pwyllgor Cynllunio ymchwilio ymhellach i elfen Prifysgol Reading o'r cyngor. Dywedodd ei fod yn bersonol yn teimlo bod pobl yn yr ardaloedd gwledig dan anfantais.

Cafwyd gwybodaeth gan Busnes Cymru a oedd yn nodi bod 40% o ffermydd Cymru bellach wedi arallgyfeirio a oedd yn cyfateb i 19% o gyfanswm yr incwm. Nid oedd Prifysgol Reading wedi ystyried hyn.

Mae cyfeirnod 4.4 y cais hwn yn ymdrin â phopeth yn yr adran honno.

Cyfeirnod 4.5 – hyrwyddo arallgyfeirio ar ffermydd sefydledig y mae'r ymgeisydd hwn yn ei wneud ac 4.5.3 bod olyniaeth yn hollbwysig.

Gan gyfeirio at y prawf ariannol dywedodd fod yna ardal lwyd gan ei fod yn dweud “dylai fod â rhagolygon da o barhau'n economaidd gynaliadwy am gyfnod rhesymol o amser”. Nid oedd yn ymddangos bod Prifysgol Reading yn derbyn hynny, ar sail ffigurau ariannol pur, nid ar hanes y fferm. Ym marn y Cynghorydd Evans, nid oedd yn meddwl bod unrhyw gydbertynas rhwng yr wybodaeth yr oedd Prifysgol Reading wedi'i darparu a'r hyn yr oedd ei angen ar TAN6. Roedd yn derbyn ei bod yn anodd i swyddogion orfod penderfynu rhwng Prifysgol Reading a Kite Consultants.

I gloi, roedd hwn yn gais dilys gan bâr gweithgar a oedd am aros ar y fferm. Nid oedd unrhyw opsiwn arall ar eu cyfer gan nad oedd unrhyw gyfleoedd eraill yn yr ardal. Nid oedd y Cynghorydd Evans yn meddwl bod Prifysgol Reading a TAN 6 wedi'u halinio. Nid oedd yn meddwl bod Prifysgol Reading yn deall sut roedd ffermydd teuluol Cymreig yn ffynnu ac yn goroesi a daeth hynny i lawr i hyblygrwydd, addasrwydd a gwaith caled difrifol. Hwn oedd gobaith olaf yr ymgeiswyr a gobeithiodd y byddai'r Pwyllgor Cynllunio ddangos eu cefnogaeth.

Cadarnhaodd swyddogion cynllunio fod ymgynghorwyr annibynnol wedi'u penodi ar eu rhan i asesu'r holl wybodaeth a ddarparwyd. Cais am dŷ yng nghefn gwlad agored oedd hwn. Yn y lleoliadau hynny mae cyfyngiadau gwledig arferol yn berthnasol oni bai bod eithriad. Un o'r eithriadau hynny oedd bod angen y tŷ i gefnogi menter wledig ac yn amlwg roedd yr ymgeisydd wedi dangos bod angen hynny. Roedd angen swyddogaethol i Mr Davies fod yno ac am olyniaeth. Dangoswyd hefyd nad oedd unrhyw effaith weledol na niweidiol felly'r unig fater oedd y prawf ariannol. Mae'n rhaid iddynt ddangos y byddai'n broffidiol a bod ganddo ddyfodol cynaliadwy. Edrychodd yr ymgynghorwyr ar y ffigurau blaenorol a daeth i'r casgliad nad oedd yr elw rhagamcanol yn ddigon i dalu isafswm cyflog i'r tad a'r mab ac i dalu costau'r morgais. Mae'r ymgynghorwyr yn cynghori y byddai hyn yn tanseilio'r busnes a brofodd yn risg i'r dyfodol. Risg arall oedd pe na bai'r cais yn cael ei ganiatáu yma, gallai'r busnes ddiflannu beth bynnag gan atal olyniaeth.

Roedd Prifysgol Reading wedi cymhwyso TAN6 yn gywir. Canfuwyd gwrthdaro ag un elfen o'r profion. Dywedodd TAN6 bod yn rhaid i'r busnes gynnal ei hun, roedd yr adeilad yno i gefnogi'r fenter. Roedd y profion yn ymwneud â'r busnes na allai ddibynnu ar incwm priod neu waith ymylol.

Yn ystod y trafodaethau, codwyd y pwyntiau a ganlyn –

- Cytunodd yr aelodau ei fod yn benderfyniad anodd gan fod yr amodau cynllunio perthnasol wedi'u bodloni, yr unig fater oedd yr agwedd ariannol. Cytunodd nifer o aelodau â datganiad yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Hugh Evans.
- Petai'r adeilad yn cael ei ganiatáu, byddai'n adeilad i weithiwr amaethyddol ac ni fyddai modd ei werthu ar y farchnad agored, ar gyfer y busnes yn unig y byddai. Roedd yn bwysig edrych ar y busnes a'r gallu i gynnal a chadw'r adeilad. Teimlwyd hefyd y byddai Mr Davies a'i bartner yn cynhyrchu incwm ychwanegol ac y byddai'r fferm yn fusnes hirdymor. Ymatebodd swyddogion drwy bwysleisio bod y cais yn hynod ymylol o ran sut y gwnaed yr asesiad.
- Yn y dyfodol, byddai angen ail asesu'r mathau hyn o achosion ac mae'n bosibl y byddai angen i swyddogion herio Ymgynghorwyr yn fwy o ran y wybodaeth a ddarperir ganddynt. Cadarnhawyd bod swyddogion hefyd yn ymdrin â Nodiadau Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru. Byddai angen gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiwygio geiriad rhai o'u dogfennau.
- Byddai'r eiddo yn brosiect menter wledig a phe byddai aelodau yn mynd yn groes i argymhelliad swyddogion byddai angen ffurfioli rhesymau cyn mynd i'r bleidlais.
- Byddai angen gosod amodau cynllunio i sicrhau bod yr eiddo ei hun yn cael ei gadw am byth mewn cysylltiad â'r fenter wledig. Byddai'r amodau fel arfer yn cael eu cytuno gyda'r aelod lleol a byddai set o amodau drafft yn cael eu llunio a'r geiriad yn cael ei gytuno gyda'r Aelod Lleol.

Cynnig - Cynigiodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts ganiatáu'r cais cynllunio yn erbyn argymhellion swyddogion. Y rhesymau dros ganiatáu'r cais - ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl wybodaeth a roddwyd ger ei fron, yr hyn a glywsant gan yr ymgeisydd a'r sylwadau hwyr yw eu bod yn fodlon bod y busnes yn bodloni'r prawf ariannol, a eiliwyd gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

PLEIDLAIS –

O blaid (yn erbyn argymhelliad swyddogion) – (bwriwyd 9 pleidlais yn y Siambr, bwriwyd 10 pleidlais dros Zoom) – 19

Ymatal – 0

Gwrthod – 0

PENDERFYNWYD RHOI caniatâd yn groes i argymhelliad y swyddogion.

7 CAIS RHIF 01/2021/0836/ PF - FFLATIAU PENNANT, STRYD HENLLAN, DINBYCH LL16 3PH

Cyflwynwyd cais i adeiladu 7 annedd teras, 2 adeilad sy'n cynnwys cyfanswm o 4 o fflatiau, ffurfio mynedfa, lleoedd parcio, gwaith tirlunio a gwaith cysylltiedig yn Fflatiau Pennant, Stryd Henllan, Dinbych.

Y Cynghorydd Delyth Jones (Aelod y Ward) – roedd y cais wedi'i ddylunio i fod yn lle 2 floc a oedd ar y safle'n wreiddiol. Mae'r to i'w weld yn uwch na'r tai ger llaw. Rwy'n deall y bydd yn addas yn y lleoliad hwn ac i liniaru unrhyw lifogydd. Mae

llawer o waith wedi'i wneud gyda'r cynlluniau ac mae'r gofynion o ran gwella llifogydd wedi'u bodloni. Croesawai'r Cynghorydd Jones y cymal ychwanegol sy'n rhoi gofynion o ran y math o ddeunyddiau a ddefnyddir a'u lliw. Mae'n cynnig cynllun 100% o dai cymdeithasol ac mae mawr angen am hynny yn yr ardal.

Cynnig – Cynigodd y Cynghorydd Delyth Jones y dylid rhoi caniatâd yn unol ag argymhelliad y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Alan James.

PLEIDLAIS –

O blaid – (9 pleidlais yn y Siambr a 10 pleidlais dros Zoom) – 19

Ymatal – 0

Gwrthod – 0

PENDERFYNWYD y dylid **CYMERADWYO'r** cais yn unol ag argymhelliad y swyddog.

AR Y PWYNT HWN (10.20AM) CAFWYD EGWYL.

AILDDECHREUODD Y CYFARFOD AM 10.25AM.

8 CAIS RHIF 40/2021/0825/PF - TIR GYFERBYN AG YSBYTY GLAN CLWYD, Ffordd RHUDDLAN, BODELWYDDAN, Y RHYL

Cyflwynwyd cais i godi 108 annedd, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig ar dir gyferbyn ag Ysbyty Glan Clwyd, Ffordd Rhuddlan, Bodelwyddan, y Rhyl.

Trafodaeth Gyffredinol – Roedd cyfarfod safle wedi'i gynnal ddydd Gwener 30 Medi 2022. Bu'r Cynghorydd Peter Scott yn y cyfarfod safle ac edrychodd ar y safle. Roedd y Swyddog Priffyrdd hefyd wedi bod yn y cyfarfod safle i egluro y byddai'r fynedfa a'r allanfa o'r safle'n cael ei gwella. Byddai croesfan i gerddwyr a beicwyr oddi wrth y gylchfan wrth fynedfa'r ysbyty. Byddai'r cynigion draenio ar gyfer dŵr wyneb yn dilyn deddfwriaeth Systemau Draenio Cynaliadwy. Yn ystod yr ymweliad â'r safle, gofynnwyd cwestiwn am y system garthffosiaeth gyhoeddus. Ar y daflen o sylwadau hwyr, roedd datganiad gan Ddŵr Cymru wedi'i gynnwys yn dweud na fyddai caniatâd i unrhyw un arall gysylltu â'u system garthffosiaeth gyhoeddus leol nhw oherwydd diffyg capasiti. Dywedai y byddai dŵr budr o unrhyw ddatblygiad arall ar y Safle Strategol Allweddol ehangach angen cael ei gysylltu â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Bae Cinmel. I wneud hyn, byddai angen gwelliannau sylweddol i isadeiledd ar gost y datblygwr, a fyddai'n gwneud unrhyw ddatblygiad arall yn anymarferol.

Dywedodd y Cynghorydd Raj Metri (Aelod Lleol) nad oedd wedi gallu bod ar yr ymweliad safle oherwydd problemau iechyd, yn anffodus. Roedd pobl leol yn pryderu am y peryglon ar Sarn Lane wrth gerdded i ac o'r ysbyty. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â draenio ar y ffordd.

Cadarnhaodd y Swyddog Priffyrdd bod asesiad cludiant manwl wedi'i ddarparu yn rhan o'r cais. Roedd cyffyrdd lleol wedi cael eu hasesu a byddai pob cyffordd yn gweithredu'n ddiogel o fewn eu capasiti. Roedd llawer o ddulliau cludiant ar wahân i geir ar gael ar gyfer y safle ac roedd bwriad i wella cysylltiad y safle â'r rhwydwaith

Ilwybrau cerdded a beicio presennol yn rhan o Deithio Llesol Cymru drwy gyflwyno croesfan wedi'i rheoli ar Ffordd Rhuddlan, heb fod ymhell o'r gylchfan gyda llwybr cerdded a beicio bob ochr i'r ffordd yn cysylltu â'r cyfleuster newydd. Byddai mynedfa'r safle ar ffurf cyffordd flaenoriaeth wedi'i rheoli, ac ni fyddai'n effeithio ar lif rhwydd y traffig. Roedd trefniadau'r fynedfa'n cydymffurfio â gofynion TAN18 ar safonau gweledd. Byddai ffordd yr ystâd oddi mewn i'r safle 5.5 metr o led gyda llwybrau cerdded 2 fetr. Byddai'r gilfan tynnu-i-mewn bresennol yn cael ei thynnu. Wrth ystyried yr holl wybodaeth, nid oedd gan yr Adran Briffyrdd unrhyw bryderon.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Alan James ei fod wedi bod yng nghyfarfod y safle ac roedd yn fodlon â'r cynigion.

Cynnig – Cynigodd y Cynghorydd Alan James, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Scott, y dylid caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog.

PLEIDLAIS –

O blaid – (9 pleidlais yn y Siambr a 10 pleidlais dros Zoom) – 19

Ymatal – 0

Gwrthod – 0

PENDERFYNWYD y dylid **CYMERADWYO'r** cais yn unol ag argymhelliad y swyddog.

9 CAIS RHIF 45/2022/0533/ PS - ROGER W JONES LTD. CEFNDY ROAD, Y RHYL

Cyflwynwyd ais i osod rhaciau iard ychwanegol (cais ôl-weithredol) yn Roger W Jones Ltd, Ffordd Cefndy, y Rhyl.

Cynhaliwyd ymweliad â'r safle ar 30 Medi 2022.

CYNIGIODD y Cynghorydd Peter Scott y dylid gohirio'r cais i siarad â'r ymgeiswyr i weld a ellid dod i gyfaddawd, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Alan James.

PLEIDLAIS –

O blaid gohirio – (9 pleidlais yn y Siambr a 9 pleidlais dros Zoom) – 18

Ymatal – 0

Gwrthod – 0

PENDERFYNWYD GOHIRIO'r cais cynllunio.

10 CAIS RHIF 45/2022/0543/ PF - 2 Ffordd TYNEWYDD, Y RHYL

Cyflwynwyd cais i adeiladu estyniad llawr cyntaf dros garej bresennol, ffurfio balconi wrth ochr annedd a gwaith cysylltiedig yn 2 Ffordd Ty Newydd, y Rhyl.

Cynnig – Cynigodd y Cynghorydd Win Mullen-James y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Ellie Chard.

PLEIDLAIS –

O blaid – (9 pleidlais yn y Siambr a 9 pleidlais dros Zoom) – 18

Ymatal – 0

Gwrthod – 0

PENDERFYNWYD y dylid CYMERADWYO'r cais cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog.

11 47/2020/0593/PF – HEN GLWB RYGBI Y RHYL, Ffordd y Waen Road, Rhuddlan, y RhyL

Derbyn adroddiad i geisio enwebiadau gan Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio i gynrychioli'r Cyngor yn y Gwrandawiadau ar gyfer cais rhif: 47/2020/0593 a oedd wedi cael ei alw i mewn gan Lywodraeth Cymru i Weinidogion Cymru benderfynu arno.

Gofynnodd y Cyngorwyr Chris Evans a Peter Scott am gael bod yn gynrychiolwyr.

Cytunwyd yn unfrydol ar hynny drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD bod y Cyngorwyr Chris Evans a Peter Scott yn cynrychioli'r Cyngor yn y Gwrandawiadau ar gyfer cais cyf: 47/2020/0593 a oedd wedi'i alw i mewn gan Lywodraeth Cymru i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.

12 ADOLYGU'R CYNLLUN DIRPRWYO

Derbyn adroddiad a oedd yn rhoi amlinelliad i Aelodau o'r newidiadau a awgrymwyd i Gynllun Dirprwyo Cynllunio.

Yn dilyn pleidlais unfrydol trwy godi dwylo, cytunwyd ar dderbyn y newidiadau i Gynllun Dirprwyo Cynllunio.

DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 10.50 A.M.